
CILIP The library and information association

# Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn Newid Bywydau




"Ceisiwch yn gyntaf ddeall." – **Shirley Yearwood-Jackman, Ymddiriedolwr CILIP**

**Papur Safbwynt CILIP**
**Medi 2019**

© CILIP 2019

# Cynnwys


Ein gweledigaeth a'n cenhadaeth 3

Ein moeseg broffesiynol 4

**CILIP fel sefydliad moesegol weithredol**
**Ein 6 blaenoriaeth ar gyfer gweithredu**

Blaenoriaeth 1: Cydraddoldeb a thegwch i grwpiau sydd ar y cyrion 5

Blaenoriaeth 2: Cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu dosbarth neu statws cymdeithasol-economaidd 7

Blaenoriaeth 3: Goresgyn effaith andwyol tlodi 8

Blaenoriaeth 4: Gwrthwynebu rhagfarn, tuedd ymwybodol neu ddiarwybod, gwahaniaethu a iaith casineb 9

Blaenoriaeth 5: Cefnogi aelodau i ail-gydbwyso anghyfartaledd strwythurol mewn casgliadau a gwasanaethau 10

Blaenoriaeth 6: Mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd 12

Beth ydym yn ei wneud eisoes 13

Beth fyddwn yn ei wneud nesaf 14

Dal ein hunain i gyfrif 15

Cymryd rhan 15





**Cofleidio amrywiaeth a diwylliant trwy ddigwyddiadau yn Llyfrgelloedd Lambeth.**

**Rydym yn byw ac yn gweithio yn nyddiau cynnar cymdeithas sy'n cael ei thrawsnewid gan wybodaeth. Mae llyfrgellwyr, gweithwyr llyfrgell, a gweithwyr proffesiynol rheoli gwybodaeth ym mhob sector yn cyfoethogi bywydau unigolion, yn cyfrannu at gymunedau cryf, yn hyrwyddo twf economaidd cynhwysol ac yn helpu i greu cymdeithas deg a chyfiawn i bawb.**




## Ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

Mae ein byd yn mynd trwy gyfnod o newid cyflym, cythryblus. O effaith globaleiddio ac aflonyddwch digidol i gynnydd gwleidyddiaeth boblyddol a'r risg parhaus o ragfarn hiliol a mathau eraill o ragfarn, ni fu erioed mor bwysig sefyll yn glir dros hawliau'r unigolyn.

CILIP yw cymdeithas llyfrgell a gwybodaeth y DU. Mewn byd sy'n newid, rydym yn sefyll dros degwch, cynwysoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

Ein gweledigaeth yw gwasanaethau gwybodaeth a llyfrgell cynhwysol, cyfranogol sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol ac sydd wrth wraidd eu cymunedau – boed y cymunedau hynny wedi'u lleoli o amgylch ardal, yn sefydliad, yn fusnes neu'n gymuned ymarfer.

Ein cenhadaeth, fel y cafodd ei nodi yn *Sicrhau'r Dyfodol*, ein Cynllun Gweithredu hyd at 2020, yw rhoi sgiliau gwybodaeth a llyfrgell a gwerthoedd proffesiynol wrth galon cymdeithas ddemocrataidd, gyfartal a llewyrchus. Rydym yn gwneud hyn trwy'r canlynol:

- Grymuso llyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol gwybodaeth i newid bywydau,
- Bod yn weithredwr dros newid cymdeithasol cadarnhaol ac yn erbyn anghydraddoldeb,
- Hyrwyddo safonau, arloesedd ac arfer gorau mewn llyfrgelloedd a gwyddor gwybodaeth,
- Eiriol dros werth ac effaith llyfrgelloedd a gwybodaeth, a
- Cefnogi datblygiad gweithlu llyfrgell a gwybodaeth sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Mae CILIP yn sefyll yn erbyn anghydraddoldeb, gwthio pobl i'r cyrion, rhagfarn a chau allan. Er mwyn sicrhau tegwch i bob aelod o'n cymdeithas, credwn ei bod yn angenrheidiol i'r rhai sydd â phŵer rannu'r pŵer hwnnw. Rhaid i CILIP arwain trwy esiampl, gan wyro ein pŵer yn rhagweithiol i rymuso lleisiau eraill, llai breintiedig.

# Ein moeseg broffesiynol

Mae Egwyddorion Moesegol CILIP yn ein hymrwymo i arddel, hyrwyddo ac amddiffyn y canlynol:

- Hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Budd cyhoeddus
- Cadwraeth
- Bod yn ddiduedd
- Cyfrinachedd
- Sgiliau a llythrennedd gwybodaeth




### CILIP fel sefydliad moesegol weithredol

Bydd CILIP yn 'weithredol' (yn yr ystyr o fod yn eiriolwr rhagweithiol, nid gweithredu gwleidyddol pleidiol) ar gyfer newid cymdeithasol cadarnhaol a chyfiawnder cymdeithasol ar draws pob un o'r sectorau y mae ein haelodau'n gweithio ynddynt, gan gynnwys y sector cyhoeddus a phreifat, y trydydd sector a Llywodraeth.

Fel y sefydliad cenedlaethol annibynnol ar gyfer llyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol gwybodaeth, credwn fod gennym gyfle a dyletswydd i ddefnyddio ein dylanwad ac i gefnogi ein haelodau i herio anghydraddoldeb a helpu i greu cymdeithas deg a chyfiawn i bawb.

Rydym yn cydnabod na fydd 'bod yn glên' yn cyflawni graddfa'r newid yr ydym am ei weld. Er mwyn sicrhau tegwch go iawn yn ein proffesiwn a'n cymdeithas, mae'n rhaid i ni darfu ar strwythurau pŵer heb danseilio ein gallu i ddarparu gwasanaethau o safon, herio anghydraddoldeb yn rhagweithiol, adfyfyrio'n feirniadol ar ein rôl ein hunain ac ymgysylltu â'r ystod ehangaf bosibl o leisiau er mwyn helpu i lunio dyfodol ein proffesiwn.

*Ein 6 blaenoriaeth ar gyfer gweithredu*

Mae CILIP yn cefnogi *Nodau Datblygu Cynaliadwy* 2030 y Cenhedloedd Unedig trwy ganolbwyntio ar chwe blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Byddwn yn cefnogi rhaglenni a gweithgareddau yn y proffesiwn llyfrgell a rheoli gwybodaeth, sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn:

1. **Gwir gydraddoldeb a thegwch i grwpiau sydd ar y cyrion yn ein cymdeithas;**
2. **Cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu dosbarth neu statws cymdeithasol-economaidd;**
3. **Goresgyn effaith andwyol pob math o dlodi ar fywydau pobl;**
4. **Gwrthwynebu pob math o ragfarn – ymwybodol neu ddiarwybod, gwahaniaethu neu iaith casinebh;**
5. **Cefnogi ein haelodau i ail-gydbwyso anghydraddoldeb strwythurol yn eu casgliadau a'u gwasanaethau;**
6. **Newid yn yr amgylchedd a'r hinsawdd a'u heffaith gymdeithasol ac ecolegol.**

# Blaenoriaeth 1

## Cydraddoldeb a thegwch i grwpiau sydd ar y cyrion

**Bydd CILIP yn gynghreiriad i unigolion a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gymdeithas ac yn ein proffesiwn.**

**Mae hyn yn golygu sicrhau bod y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys yn weithredol yn ein gwaith, ein bod yn gwneud mwy i gynyddu a gwrando ar eu lleisiau a'n bod yn meddwl yn feirniadol ac yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'n rôl ein hunain wrth barhau i eithrio ac anghydraddoldeb.**

### *Gweithredu bob dydd: Sesiynau Synhwyraidd 'Well into Words' Llyfrgelloedd Kirklees*

Mae 'Well into Words' yn brosiect sy'n defnyddio dull amlsynhwyraidd o adrodd straeon, gan wneud llyfrau'n hygyrch i ystod amrywiol o grwpiau gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu, nam ar eu golwg a'r rhai sy'n byw gyda dementia. Gan ddefnyddio gwrthrychau, synau ac arogleuon ar gyfer profiad trochi, mae'r prosiect yn hwyluso dealltwriaeth o'r themâu (heriol weithiau) sydd wedi'u cynnwys mewn llyfrau, straeon a cherddi clasurol. Mae'r dull hwn yn agor llenyddiaeth i lawer a fyddai'n gweld fformat llyfr traddodiadol yn heriol neu'n amhosibl, gan sicrhau mynediad cyfartal i'r budd o ran lles sy'n gysylltiedig â darllen er pleser.

Ffynhonnell: *CILIP 2018 Libraries Change Lives Award*



**Olivia Barnden, Llyfrgellydd yn Llyfrgelloedd Kirklees, yn arwain sesiwn synhwyraidd 'Well into Words'.**

### *Gweithredu bob dydd: Amrywiaeth yn Llyfrgelloedd Gogledd Lloegr (DILON)*

Mae DILON yn grŵp sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol llyfrgell a gwybodaeth Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) / Pobl Lliw / heb fod yn wyn sydd, gan gredu mewn croestoriadoldeb, yn cefnogi lleiafrifoedd eraill fel menywod a phobl LGBTQ +.

Mae Maniffesto DILON yn eiriol dros amrywiaeth mewn llyfrgelloedd yng ngogledd Lloegr, gan weithredu heb ymhoniad nac eithriad. Mae'r grŵp yn darparu lle diogel i leiafrifoedd drafod eu profiadau, cynghori cynadleddau a digwyddiadau am baneli amrywiol, arddangos gwaith ei aelodau, a rhoi cefnogaeth ac anogaeth iddyn nhw, a'r gymuned lyfrgelloedd ehangach.

Ffynhonnell: *https://libdiverse.wordpress.com/*

### *Gweithredu bob dydd: Adrodd stori a chynhwysiant gyda phobl LGBT+*

Ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia, Rhyngrywiaeth a Trawsffobia (IDAHOBIT), gweithiodd Llyfrgelloedd Swydd Derby mewn partneriaeth â Derbyshire LGBT+ i arddangos eu prosiect 'Straeon Eraill' yn Llyfrgell Ripley, a chynnal amser stori ar thema IDAHOBIT ar deuluoedd cynhwysol yn Llyfrgell Chesterfield.

Hefyd hyrwyddwyd eu casgliad e-lyfrau ar thema LGBT ar wefan y llyfrgell.

Ffynhonnell: *Libraries welcome everyone: Six stories of diversity and inclusion from libraries in England (Vincent, J., 2018)*

### *Gweithredu bob dydd: Adlewyrchu darllenwyr yn llyfrgelloedd Lambeth*

Mae Bwrdeistref Lambeth yn Llundain yn amrywiol iawn, gydag amrywiaeth helaeth o ddiwylliannau, crefyddau, ethnigrwydd a chefndiroedd i'w cael ymhlith ei 324,000 o drigolion, a thua 150 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad gan deuluoedd sy'n byw yno. Yn ôl adroddiad ar Gyflwr Bwrdeistref Lambeth yn 2016, dyma'r wythfed ardal fwyaf difreintiedig yn Llundain a'r 22ain mwyaf difreintiedig yn Lloegr.

Mae cyfuniad o bolisi, yr amgylchedd a phrofiad staff wedi helpu Lambeth i greu diwylliant o amrywiaeth a chynhwysiant ar draws llyfrgelloedd y fwrdeistref. Mae Meini Prawf Prynu Stoc Cyffredinol ar gyfer y Fwrdeistref yn nodi y dylai deunydd ffuglen a ffeithiol adlewyrchu amrywiaeth Lambeth a diwallu anghenion cymuned Lambeth. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda grwpiau a fforymau cymunedol amrywiol ac yn cadw llygad barcud am fentrau sy'n targedu grwpiau newydd neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Ymhlith yr enghreifftiau mae Amddiffynwyr Clust ar gyfer plant ac oedolion ag awtistiaeth, rhaglen Newyn Gwyliau ar gyfer teuluoedd nad oes ganddynt fynediad at gronfeydd cyhoeddus ac sydd felly ymhlith y mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref, casgliadau dyslecsia ym mhob cangen ac amseroedd stori Brenhines Drag.

Source: *Pen&inc., Spring/Summer 2019. Mae llun y clawr yn dangos ymwelwyr i Lyfrgell Lambeth*




**Nod Llyfrgelloedd Lambeth yw darparu ar gyfer anghenion cymuned amrywiol, yn ieithyddol, yn ddiwylliannol neu'n addysgol.**



**Catherine Johnson, awdur ar ymweliad, yn rhyngweithio gyda disgyblion ysgol yn Llyfrgelloedd Lambeth.**

# Blaenoriaeth 2

## Cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu dosbarth neu statws cymdeithasol-economaidd

**Er mwyn i'n cymdeithas a'n heconomi ffynnu, mae CILIP yn credu ei bod yn ofynnol i ni ymgyrchu'n weithredol dros gyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu dosbarth neu statws cymdeithasol-economaidd.**

**Ym Mhrydain fodern, mae dosbarth yn dal i weithredu fel ffactor sylfaenol wrth bennu eich cyfleoedd mewn bywyd. Credwn fod hyn yn annheg ac y dylem wneud popeth o fewn ein gallu i wella cynrychiolaeth dosbarth gweithiol yn y sector llyfrgelloedd a gwybodaeth.**

**Ar yr un pryd, rydym am weithio gyda llyfrgelloedd a gwasanaethau gwybodaeth i dargedu cefnogaeth ar gyfer symudedd cymdeithasol a chyfleoedd i bawb.**

***Gweithredu bob dydd – Llyfrgell Thimblemill, Llyfrgell Noddfa***

Mae Llyfrgell Thimblemill ym mwrdeistref Sandwell yn darparu cartref i Gweithredu Bearwood dros Ffoaduriaid, grŵp cymunedol sy'n gweithio gyda sefydliadau llawr gwlad lleol i helpu i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yn lleol. Gwnaeth y llyfrgell gais llwyddiannus am wobr Llyfrgell Noddfa yn 2017, y llyfrgell gyntaf yn y DU i sicrhau'r statws.

Mae'r llyfrgell yn darparu lle a chefnogaeth i'r grŵp a'i fentrau gan gynnwys codi arian, cyrsiau hyfforddi, a phrosiect cyfeillio. Mae'r staff yn fedrus ac yn ddeallus, ac yn croesawu pobl sy'n ceisio noddfa a newydd-ddyfodiaid i'w holl wasanaethau. Mae'r llyfrgell hefyd yn darparu ar gyfer ceisiwr lloches gan ddarparu dosbarthiadau ESOL am ddim 3 diwrnod yr wythnos. Mae staff y llyfrgell a'r storïwr preswyl wedi ymrwymo i adrodd straeon gan gynnwys straeon ffoaduriaid, gan werthfawrogi eu cyfraniad i'r gymuned leol a chreu diwylliant o groeso a chynhwysiant.

Ffynhonnell: *Taflen Libraries and Museums of Sanctuary, City of Sanctuary https://cityofsanctuary.org/*




**Digwyddiadau codi arian i gefnogi ffoaduriaid cheiswyr lloches, a drefnir gan Grwp Gweithredu Bearwood dros Ffoaduriaid, ac a gynhaliwyd yn Llyfrgell Thimblemill.**

***Gweithredu bob dydd: Llyfrgelloedd y gyfraith sy'n cefnogi gwaith cyfreithiol pro-bono***

Mae cwmni cyfreithiol blaenllaw yn Llundain wedi rhoi ei lyfrgellwyr cyfraith i weithio i gefnogi nifer o achosion 'pro-bono' diweddar – gwasanaethau nad yw'r cwmni naill ai'n codi o gwbl amdanynt, neu'n codi ffioedd gyda gostyngiad sylweddol er budd y cyhoedd.

Mae gwaith 'pro bono' yn galluogi cwmnïau cyfreithiol i fuddsoddi yn eu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac i roi yn ôl i gymdeithas. Mae cwmnïau cyfreithiol yn ymgymryd ag achosion pro bono i helpu cymunedau ar y cyrionl neu nad ydyn tyn cael eu gwasanaethu'n llawn, syd yn aml yn cynnwys plant a'r henoed, na fyddent fel arall yn gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae enghreifftiau diweddar o waith pro bono yn cynnwys prosiect gyda Canolfan Gyfreithiol Plant Coram i ddarparu cynrychiolaeth am ddim i blant nad oes ganddynt gefnogaeth gyfreithiol a menter i wella cynrychiolaeth gyfreithiol i bobl LGBTQ +.

Trwy weithio gyda'u llyfrgellwyr y gyfraith, gall cyfreithwyr sicrhau bod eu cynrychiolaeth pro bono yn cael ei ategu gan y dystiolaeth, y gyfraith achos a'r cynsail gorau posibl. Mae'n eu galluogi i dynnu ar wybodaeth a mewnwelediad sy'n deillio o achosion drud iawn ar raddfa fawr er mwyn bod o fudd i bobl sydd angen eu help. Ffynhonnell: *Datganiad gan Lyfrgellydd y Gyfraith i CILIP (2019).*

# Blaenoriaeth 3

## Goresgyn effaith andwyol tlodi

Yn ôl ffigyrau gan Sefydliad Joseph Rowntree, mae dros 14 miliwn o bobl – 1 o bob 5 o boblogaeth y DU – yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys 8 miliwn o oedolion o oed gweithio, pedair miliwn o blant ac 1.9 miliwn o bensiynwyr.

Yn ei adroddiad yn 2018 ar Dlodi ym Mhrydain, amlygodd Rapporteur y Cenhedloedd Unedig, Philip Aston, effaith niweidiol toriadau i wasanaethau lleol – gan gynnwys cau llyfrgelloedd cyhoeddus – ar 'wead cymdeithas ym Mhrydain', ar ein synnwyr o gymuned ac ar fywydau pobl sy'n byw mewn tlodi.

Mae CILIP yn credu bod dysgu, addysg a mynediad at wybodaeth yn ffactorau hanfodol wrth arfogi pobl i ddianc o'r 'trap tlodi' ac adeiladu bywydau gwell iddyn nhw eu hunain a'u plant. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo rôl llyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol rheoli gwybodaeth wrth gyflenwi gwasanaethau sy'n helpu i godi pobl allan o dlodi, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith hirdymor tlodi gwybodaeth.

***Gweithredu bob dydd: Cyngor ar Bopeth yn y llyfrgell***

Mae Llyfrgelloedd Glasgow wedi dod â Chyngor ar Bopeth canolog i mewn i un o lyfrgelloedd prysuraf y DU, Llyfrgell Mitchell.

Mae tîm y llyfrgell a'r CAB wedi canolbwyntio "o fewn cyrraedd" ar gwsmeriaid llyfrgelloedd a oedd angen gwybodaeth a chyngor ar ystod o faterion gan gynnwys problemau ariannol a dyled, ac anawsterau cyflogaeth a chyfreithiol.

Mae staff y llyfrgell wedi darganfod bod gweithio gyda Chyngor ar Bopeth wedi creu cyfleoedd i ddarparu mwy o gefnogaeth a chyngor i bobl sy'n profi digartrefedd.

Ffynhonnell: *Gwobr Llyfrgelloedd yn Newid Bywydau 2018 CILIP*




**Pat McComiskey (ar y chwith) ac Iain Riley (ar y dde) yn derbyn Gwobr Llyfrgelloedd yn Newid Bywydau 2018 ar ran prosiect o fewn cyrraedd Cyngor ar Bopeth Llyfrgell Glasgow, wedi'i chyflwyno gan yr Arglwydd Graham Tope (yn y canol).**

***Gweithredu bob dydd: Work I.T.***

Nododd Llyfrgelloedd Cyngor Stirling alw cynyddol am gymorth cyflogadwyedd digidol mewn llyfrgelloedd, ac fe wnaethant ymateb trwy wneud cais i Grŵp Llythrennedd Gwybodaeth CILIP am fwrsariaeth i ariannu Swyddog Cynhwysiant Digidol am bedwar mis. Estynnwyd y swydd hon yn dilyn derbyn deg mis o arian ychwanegol gan Uned Cyfranogiad Digidol Llywodraeth yr Alban, ac yn dilyn llwyddiant y prosiect mae Cyngor Stirling wedi ariannu dwy swydd Cynhwysiant Digidol am 18 mis.

Fe wnaeth yr arian cychwynnol alluogi Llyfrgelloedd Cyngor Stirling i weithio gyda cheiswyr gwaith, gan helpu pobl i wneud cais am Gredyd Cynhwysol a chynnal eu cyfnodolyn chwilio am waith fel sy'n ofynnol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. O ganol mis Medi 2017 tan fis Tachwedd 2018 buont yn gweithio'n helaeth gyda phartneriaid gan gynnwys y Swyddfa Cyngor ar Bopeth a gwasanaeth Dysgu a Chyflogadwyedd Cyngor Stirling. Gweithiodd eu Swyddog Cynhwysiant Digidol gydag wyth clwb swyddi, gan fynychu sesiynau 'Work IT' mewn lleoliadau gwledig a threfol, gan gyflwyno dros 156 o sesiynau galw heibio i 229 o fynychwyr mewn 10 mis. Nododd cyfranogwyr welliant yn eu sgiliau digidol, hyder, amlder defnyddio'r rhyngrwyd a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Ffynhonnell: *Llyfrgelloedd Cyngor Stirling https://my.stirling.gov.uk/libraries-archives/learning-learning-centres/work-it/*

# Blaenoriaeth 4

## Gwrthwynebu rhagfarn – ymwybodol neu ddiarwybod, gwahaniaethu a iaith casineb

**Mae sicrhau cymdeithas deg a chyfiawn yn dibynnu ar bawb yn dod at ei gilydd yn weithredol i wrthwynebu rhagfarn, gwahaniaethu a iaith casineb a thynnu sylw at ragfarn ymwybodol a diarwybod. Yng ngoleuni cynnydd poblyddiaeth genedlaetholgar, barn wleidyddol eithafol a rhethreg gyhoeddus sy'n polareiddio, rhaid i ni sefyll yn gadarn yn ein gwrthwynebiad i iaith casineb a rhaniadau.**

**Fel llyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol rheoli gwybodaeth moesegol mae'n rhaid i ni adfyfyrio'n feirniadol ar ein rhagfarnau ymwybodol a diarwybod ein hunain a sut y maent yn effeithio ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu.**

**Bydd CILIP yn gwneud datganiad clir ar ran y proffesiwn llyfrgell a gwybodaeth na fyddwn yn goddef gwahaniaethu na iaith casineb ac yn mynd ati i herio rhethreg sy'n cyfeirio casineb tuag at grwpiau neu nodweddion penodol.**



**Jay and George.** Delwedd gyda chaniatâd Photoworks

***Gweithredu bob dydd: Adrodd am droseddau casineb yn y llyfrgell***

Mae "Cynllun Gweithredu 2016 y Llywodraeth ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb" yn annog sefydlu Canolfannau Adrodd Trydydd Parti mewn lleoedd cymunedol fel llyfrgelloedd i'w gwneud yn haws i'r rhai yr effeithir arnynt adrodd am ddigwyddiadau. Mae cyfleusterau adrodd a/neu gyfeirio bellach ar gael trwy, er enghraifft, llyfrgelloedd Kirklees, llyfrgelloedd Swydd Gaerlŷr, llyfrgelloedd Norfolk, Cyngor Sir Derby a llyfrgelloedd Dinas Derby.

Ffynonellau:
*Llywodraeth EM (2016) Action Against Hate https://tinyurl.com/yy24rqbz*
*Gwybodaeth a gasglwyd gan The Network www.seapn.org.uk http://www.seapn.org.uk/*



**Caitlin Kentish.** Delwedd gyda chaniatâd Photoworks

### *Gweithredu bob dydd: Into the Outside*

Yn 2016 gweithiodd Llyfrgelloedd Brighton a Hove gyda Photoworks a'r Archif Arsylwi Torfol ar brosiect treftadaeth 'Into the Outside' i alluogi pobl ifanc LGBTQ rhwng 13-25 oed i rannu eu profiadau a'u canfyddiadau o fod yn berson LGBTQ ifanc sy'n byw yn Brighton a Hove.

Dysgodd pobl ifanc sgiliau ffotograffiaeth ac ymchwil am bwysigrwydd archifau i ddogfennu eu profiadau a chawsant gyfle i ennill achrediad Gwobr y Celfyddydau. Arddangoswyd eu gwaith ar-lein, yn Brighton Pride ac yn Arddangosfa Ddwyflynyddol Ffotograffiaeth Brighton yn Llyfrgell y Jiwbilî, ac mae bellach yn cael ei gadw yn yr Archif Arsylwi Torfol.

Ffynhonnell: *www.intotheoutside.org.uk*




**"Llyfrau" â'u "darllenwyr" yn ystod sesiwn Llyfrgell Ddynol yn Llyfrgelloedd Swydd Amwythig.**

### *Gweithredu bob dydd: Llyfrgeloedd Dynol yn hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth*

Mae'r Prosiect Llyfrgell Ddynol yn fudiad cydraddoldeb rhyngwladol sy'n ceisio herio rhagfarn a gwahaniaethu gan ddefnyddio grym sgwrsio. Mae cyfranogwyr yn 'cymryd allan' llyfr dynol hunan-deitl am hyd at 30 munud o sgwsrio parchus am eu profiadau o ragfarn, tuedd,steroteip, stigma neu wahaniaethu. Mae'r fenter yn cynnig gofod pwysig ar gyfer herio agweddau ymhlyg a thuedd diarwybod.

Mae Llyfrgelloedd Swydd Amwythig wedi sefydlu Llyfrgell Ddynol i gychwyn deialog ynghylch herio stigma a stereoteipiau yn Swydd Amwythig wledig. Ar hyn o bryd mae gan eu Depo Llyfrau Llyfrgell Ddynol gasgliad o 11 o "lyfrau" y Llyfrgell Ddynol (gwirfoddolwyr/arbenigwyr yn ôl profiad). Mae'r llyfrgell hefyd wedi gweithio gyda llyfrgellwyr gwybodaeth iechyd yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt yng Nghroesoswallt a chyda llyfrgellwyr academaidd yng Nghanolfan Prifysgol Amwythig.

Ffynhonnell: *http://humanlibrary.org/, https://newsroom.shropshire.gov.uk/2017/12/human-library-events/*

# Blaenoriaeth 5

## Cefnogi aelodau i ail-gydbwyso anghyfartaledd strwythurol mewn casgliadau a gwasanaethau

**Mae gan lyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol rheoli gwybodaeth gyfle hynod i helpu pobl i ddarganfod byd cyfoethocach, mwy amrywiol trwy'r casgliadau, adnoddau a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Mae gwaith diweddar yn y sector academaidd i gynorthwyo myfyrwyr i ddad-drefedigaethu eu cwricwla yn tynnu sylw at y ffordd y gall ein gwasanaethau ail-gydbwyso hunaniaeth pwy sy'n cael ei chynrychioli a stori pwy sy'n cael ei hadrodd.**

**Bydd CILIP yn cefnogi rhaglenni yn y gymuned llyfrgell a rheoli gwybodaeth a mynd ati i geisio ail-gydbwyso anghydraddoldeb strwythurol yn ein casgliadau a'n gwasanaethau, yn enwedig trwy brosesau agored a chynhwysol o ymgysylltu a deialog â'r gymuned.**

***Gweithredu bob dydd: Dad-drefedigaethu Cwricwlwm y Celfyddydau***

Yn ddiweddar, mae Coleg Cyfathrebu Llundain, UAL wedi archwilio sut y gellid dad-drefedigaethu cwricwlwm y celfyddydau. Cafodd yr arddangosfa, 'Dad-drefedigaethu Cwricwlwm y Celfyddydau', ei llwyfannu gan lyfrgell y coleg mewn cydweithrediad â chrewyr y cylchgrawn 'Decolonising the Arts Curriculum: Perspectives on Higher Education', a'i guradu ar y cyd gan Ddarlithydd Cyswllt UAL Rahul Patel, y llyfrgellwyr Ruth Collingwood a Monica-Carmela Sajeva a staff Academaidd Coleg Cyfathrebu Llundain.

Ymchwiliodd yr arddangosfa i sut y mae rhai lleisiau yn freintiedig trwy gasgliadau llyfrgelloedd a sut y gellir herio hyn trwy lyfrgellyddiaeth feirniadol. Roedd yr arddangosfa yn arddangos cynnwys o'r cylchgrawn, yn ogystal â chasgliadau arbennig o lyfrgell Coleg Cyfathrebu Llundain, fel y Casgliad Print Hanesyddol, sy'n olrhain hanes a chelf yn y llyfr y Gorllewin o'r 15fed i'r 21ain ganrif.

Cefnogwyd yr arddangosfa gyda chyfres o ddigwyddiadau gyda'r nos, sgyrsiau gan gyfranwyr y cylchgrawn a thaith o amgylch yr arddangosfa gan Collingwood a Sajeva, yn ogystal â dau ddigwyddiad panel: Dad-drefedigaethu'r Lleoliad a Dad-drefedigaethu'r Disgyblaethau.

Ffynhonnell:
*https://www.arts.ac.uk/students/library-services/special-collections-and-archives/stories/decolonising-the-arts-curriculum-exhibition-lcc-library*

***Gweithredu bob dydd: Rhyddhau ein Llyfrgell***

Mae Llyfrgell Goldsmith yn ymgysylltu â nod y Strategaeth Dysgu, Addysgu, Asesu (LTAS) i gefnogi 'Rhyddhau ein graddau' Goldsmith.

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i arallgyfeirio ei chasgliadau, i ddad-ganoli Gwyndra, ac i herio strwythurau anghynhwysol wrth reoli gwybodaeth a'u heffaith ar gasgliadau, defnyddwyr a gwasanaethau llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn cymryd agwedd groestoriadol tuag at ei gwaith rhyddhau i gwmpasu'r rhannau niferus o hunaniaeth unigolyn.

Ffynhonnell:
*https://www.gold.ac.uk/library/about/liberate-our-library/*




**Plât llyfr "Rhyddhau ein graddau" a ddefnyddiwyd ar awgrymiadau a brynwyd fel rhan o'r ymgyrch ryddhau.**

# Blaenoriaeth 6

## Mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd

**Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn ail-lunio ein byd. Dros yr 20 mlynedd nesaf, bydd yn cael effaith ddramatig ar ein poblogaeth fyd-eang, gan ddyfnhau tlodi ac anghydraddoldeb a rhoi adnodd refeniw hanfodol mewn perygl gwirioneddol o brinder.**

**Nid ydym wedi dechrau ar y gwaith hwn eto. Dros y 2 flynedd nesaf, bydd CILIP yn mynd ati i hyrwyddo trafodaeth a deialog o fewn y sector ynghylch sut y gall ein proffesiwn helpu ein cymunedau a'n sefydliadau i harneisio gwybodaeth i reoli'r risgiau hyn.**

***Gweithredu bob dydd: Llyfrgell Treftadaeth Bioamrywiaeth***

Mae'r Llyfrgell Treftadaeth Bioamrywiaeth yn yr Unol Daleithiau yn llyfrgell ddigidol mynediad agored sy'n darparu mynediad at lenyddiaeth bioamrywiaeth sy'n cynnwys mwy na 46 miliwn o dudalennau o dros 170,000 o gyfrolau a gyhoeddwyd o'r 15fed i'r 21ain ganrif mewn dros 40 o ieithoedd.

Mae'r data a ddarperir gan y llyfrgell yn cael ei ddefnyddio gan wyddonwyr i nodi rhywogaethau newydd, mapio datblygiadau poblogaeth ac ecosystem, a llywio modelau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Mae gwaith y Llyfrgell Treftadaeth Bioamrywiaeth yn llywio polisïau sy'n ymwneud â chadwraeth, datblygu cynaliadwy, a rheoli adnoddau'n gyfrifol. Mae'r casgliad yn sicrhau bod gan bawb, ym mhobman, fynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i astudio ac arbed rhywogaethau ac ecosystemau'r Ddaear.

Ffynhonnell: *Access and opportunity for all. How libraries contribute to the United Nations 2030 agenda (IFLA, 2015)*

***Gweithredu bob dydd: Dylunio ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol yn Llyfrgell McClay***

Roedd cynaliadwyedd yn ffactor hanfodol yn nyluniad, adeiladwaith a gweithrediad Llyfrgell McClay newydd ym Mhrifysgol Queen's, Belffast, a agorodd yn 2009 ac a ddyfarnwyd iddo wobr cynaliadwyedd yr RICS yn 2010.

Mae cynaliadwyedd yn parhau i fod yn bwysig i staff a myfyrwyr. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth 11 o Hyrwyddwyr Amgylcheddol a'u gwaith yw annog eraill i fabwysiadu ymddygiadau mwy gwyrdd a charbon isel.

Mae'r Hyrwyddwyr hyn yn cymell eu cydweithwyr i wneud y newidiadau bach bob dydd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i berfformiad amgylcheddol y llyfrgell. Mae'r rhaglen yn edrych ar leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu; cynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon; cynyddu caffael cynaliadwy; cynyddu trafnidiaeth gynaliadwy; a gwella cyfathrebiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd.

Ffynhonnell: *The Green Library (IFLA, 2013)*



**Llyfrgell McLay.**
Trwy ganiatâd Prifysgol Queen's Belffast

# Beth ydym eisoes yn ei wneud

**Rydym wedi dechrau'r broses o adfyfyrio'n feirniadol ar ein rôl ein hunain wrth hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch, cynhwysiant a chynrychiolaeth ac rydym wedi ymrwymo i wneud yn well i'n cymuned.** Mae rhai o'r pethau rydym yn gweithio arnynt eisoes yn cynnwys:

- *Adolygiad Amrywiaeth* o Wobrau Carnegie a Kate Greenaway CILIP, sydd wedi arwain at ddatganiad o fwriad newydd ar gyfer y gwobrau yn seiliedig ar y syniad canolog bod ansawdd ac amrywiaeth mewn llyfrau a darlunio plant yn gyfystyr;
- Datblygu Adeiladu Cenedl o Ddarllenwyr, rhaglen hirdymor i hyrwyddo darllenwyr ac annog amrywiaeth mewn llyfrau a chyhoeddi plant;
- Sefydlu Rhwydwaith Gweithwyr Proffesiynol Gwybodaeth BAME, sy'n darparu strwythur cefnogol i lyfrgellwyr a gweithwyr gwybodaeth proffesiynol o gefndiroedd BAME ddatblygu eu gyrfaoedd;
- Darparu fframwaith o fwrsariaethau a chyfleoedd datblygu yn benodol ar gyfer llyfrgellwyr a gweithwyr gwybodaeth proffesiynol o gefndiroedd BAME;
- Gweithio gyda darparwyr dysgu a chyflogwyr i ddatblygu dulliau mwy cynhwysol o recriwtio a dewis, rheoli talent a datblygu pobl.

**Fel y gymdeithas broffesiynol ar gyfer llyfrgellwyr, gweithwyr llyfrgell, a gweithwyr proffesiynol rheoli gwybodaeth, mae gan CILIP rôl bwysig wrth gysylltu cyflogwyr, darparwyr dysgu a gweithwyr proffesiynol newydd a sefydledig. Rydym am ddefnyddio'r rôl hon i hyrwyddo arferion cyflogaeth mwy teg ac agwedd fwy cynhwysol tuag at y proffesiwn.** Mae rhai gweithgareddau cyfredol yn cynnwys:

- Datblygu Prentisiaethau i ddarparu llwybrau newydd i'r proffesiwn;
- Hyrwyddo a chydnabod llwybrau sy'n seiliedig ar brofiad i mewn a thrwy'r proffesiwn ar delerau cydradd â chymwysterau LIS;
- Gweithio gyda'r Bwrdd Cofrestru ac Achredu Proffesiynol (PRAB) i adnewyddu ac adfywio ein dull o Gofrestru Proffesiynol ac Achredu addysgu a dysgu LIS, gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant mewn modd gweithredol.

**Rydym yn gwybod bod cymunedau sydd â mynediad at wybodaeth amserol a pherthnasol, ac i'r rhyngrwyd, mewn gwell sefyllfa i ddileu tlodi ac anghydraddoldeb. Rydym wedi:**

- Darparu tystiolaeth i adroddiad Rapporteur y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi yn 2018

**Mae ein gweithredu yn cael ei lywio gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Hyd yma rydym wedi:**

- Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy
- Ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

# Beth fyddwn yn ei wneud nesaf

Bydd CLIP yn gweithredu rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant yn seiliedig ar y chwe blaenoriaeth yn y Papur Safbwynt hwn. Bydd gweithredoedd tymor byr i ganolig yn cynnwys:

Gwneud mwy i gefnogi pobl sydd ar y cyrion ac wedi'u tangynrychioli yn ein cymuned, neu y gwahaniaethwyd yn eu herbyn oherwydd eu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a/neu eu dosbarth neu statws cymdeithasol-economaidd.

- Byddwn yn siarad allan yn gliriach, yn llafar ac yn rhagweithiol ar faterion sy'n effeithio ar ein sector, megis effaith llymder, yr angen i hyrwyddo twf economaidd cynhwysol y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr a'r angen i wrthsefyll llanw cynyddol hiliaeth a rhagfarn yn ein parth cyhoeddus.

- Byddwn yn gwneud mwy i fod yn gynghreiriad gwell i grwpiau ar y cyrion a byddwn yn sefydlu Rhwydwaith LGBTQ+ newydd yn 2019 a Rhwydwaith Anabledd yn 2020.

- Byddwn yn mynd ati i weithio gyda'r sector i ddeall sut mae statws dosbarth a statws cymdeithasol-economaidd yn effeithio ar ein proffesiwn. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith enillion isel, cyflogaeth ansefydlog (contractau dim oriau neu gontractau tymor yn unig) a'r rhwystrau academaidd uchel i fynediad sy'n bodoli mewn rhai rhannau o'r proffesiwn.

- Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i gyflawni eu hymrwymiad i ostwng y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein sector i ddim.

- Byddwn yn lansio rhwydwaith ar gyfer menywod sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd a'r proffesiwn gwybodaeth ehangach.

Hyrwyddo rôl y proffesiwn wrth ddarparu gwasanaethau sy'n codi pobl allan o dlodi

- Mewn partneriaeth â'r Grŵp Gweithredu Tlodi Plant, byddwn yn cynnal ymchwil i rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi hawlwyr Credyd Cynhwysol

Gwrthwynebu iaith casineb a rhaniad, ac adfyfyrio'n feirniadol ar ein rhagfarn ymwybodol a diarwybod ein hunain

- Byddwn yn gwneud datganiad clir ar ran y proffesiwn llyfrgell a gwybodaeth na fyddwn yn goddef gwahaniaethu na iaith casineb.

- Byddwn yn cyflwyno rhaglen o hyfforddiant rhagfarn diarwybod ar gyfer staff CILIP, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a Thîm y Llywyddiaeth. Bydd hyn yn rhan o raglen ehangach o hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant.

Cefnogi ymdrechion i ail-gydbwyso anghydraddoldeb strwythurol

- Byddwn yn mynd ati i gefnogi rhaglenni a gweithgareddau yn y sector llyfrgell a gwybodaeth sydd yn ceisio ail-gydbwyso anghydraddoldeb strwythurol yn ein casgliadau a'n gwasanaethau.

Cymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

- Byddwn yn archwilio opsiynau gyda'n hargraffwyr a'n dosbarthwyr ar gyfer gwneud deunydd pacio Information Professional yn fwy cynaliadwy, a byddwn yn cynnwys manylion ym mhob rhifyn ynghylch sut i ailgylchu'r pecynnu a ddefnyddir ar hyn o bryd.

# Dal ein hunain i gyfrif

Mae'r Papur Safbwynt hwn yn nodi ein gweledigaeth o'r sefydliad yr ydym yn dymuno bod a'r gwahaniaeth yr ydym am ei wneud i'n proffesiwn. Rydym yn gwybod bod llawer i'w ddysgu a bod angen i ni wneud mwy i wrando ar yr ystod lawn o safbwyntiau am ein gwaith a'r rôl rydym yn ei chwarae wrth hyrwyddo cymdeithas deg a chyfiawn a phroffesiwn mwy cynhwysol.

Bob blwyddyn, byddwn yn adfyfyrio ar ba mor bell yr ydym wedi symud ymlaen tuag at yr uchelgeisiau a nodir yn y papur hwn ac yn darparu adroddiad cyhoeddus fel sail ar gyfer deialog barhaus ynghylch sut y gallwn wneud mwy.

# Cymryd rhan

**Cynnal y sgwrs**

Er mwyn gweithredu ar yr ymrwymiadau a nodir yn y Maniffesto hwn, rydym am annog deialog agored ar draws y sector. Rydym am i bob gweithiwr proffesiynol llyfrgell a gwybodaeth (aelodau CILIP a rhai nad ydynt yn aelodau) ofyn y cwestiynau hyn:

1. I ba raddau y mae ein gweithredoedd fel proffesiwn yn cyfrannu at neu'n parhau ag anghydraddoldeb strwythurol yn ein sector? Beth allem ac y dylem fod yn ei wneud yn wahanol?
2. Beth yw ein rôl wrth dynnu sylw at strwythurau a'u galw allan, sy'n gormesu ac yn gwthio pobl i'r cyrion oherwydd eu hunaniaeth?
3. Sut ydym yn byw ein gwerthoedd – "Hawliau dynol, cydraddoldebau ac amrywiaeth, cadw mynediad at wybodaeth, budd cyhoeddus, rhyddid deallusol, bod yn ddiduedd a chadw cyfrinachedd" – fel sefydliad ac fel proffesiwn?
4. Beth yw ein rôl wrth alluogi ein haelodau i wrthsefyll systemau, strwythurau a diwylliannau, sy'n parhau anghydraddoldeb neu'n dadrymuso defnyddwyr gwybodaeth?
5. Sut allwn ni wneud mwy i gefnogi llyfrgellwyr a gweithwyr proffesiynol gwybodaeth â'u cyfrifoldebau ehangach, fel cyfrifoldebau gofalu a/neu teuluol? Beth yw effaith gwahanol batrymau gwaith, fel gweithio unigol neu ar eu pennau eu hunain?

Ac mae yna gwestiynau y byddwn yn mynd i'r afael â hwynt o fewn CILIP:

6. I ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol dyheadol, newydd a phresennol yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwaith, neu'n bwysicach fyth, i ba raddau y maent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd perchnogaeth o CILIP fel eu cymdeithas broffesiynol?
7. Beth fyddai'n ei olygu i CILIP gofleidio anghytuno, gwrthsefyll, sefyll dros yr hyn sy'n iawn ac nid yn dawel gymeradwyo'r hyn nad ydyw? Sut ydym yn sicrhau ein bod ni'n siarad â llais ein haelodaeth wrth wneud hynny?
8. Beth yw rôl cymdeithas broffesiynol wrth hyrwyddo cynhwysiant, amrywiaeth a chynrychiolaeth? Sut allwn ni fod yn gynghreiriad gwell i leisiau ar gyrion ein cymuned a'u cefnogi?

Cymryd rhan mewn gweithdai ac ymchwil

- Byddwn yn ymgynghori ar bob un o'r chwe maes Blaenoriaeth trwy gyfuniad o weithdai, arolygon a chyfweliadau. Cofrestrwch eich diddordeb trwy gwblhau'r ffurflen yn www.cilip.org.uk/changinglives

Cyflwyno astudiaeth achos

- Byddwn yn casglu a chyhoeddi astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer sy'n mynd i'r afael â'r chwe maes a nodir yn y papur hwn. Cyhoeddir gwybodaeth am sut i gyflwyno astudiaeth achos yn www.cilip.org.uk/changinglives




**Lansio Wythnos Llyfrgelloedd 2018 yn Ystafelloedd Gwladol Tŷ'r Llefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin.**
Photo © Katariina Jarvinen

**Cyswllt**
Yvonne Morris MCLIP
Rheolwr Polisi (Amrywiaeth a Chynhwysiant)

E: Yvonne.Morris@cilip.org.uk
Ff: 020 4513 2873

## Papur Safbwynt CILIP/KPMG
## Hydref 2019

**Cyhoeddwyd gan CILIP**
y gymdeithas llyfrgell a gwybodaeth.

7 Ridgmount Street,
Llundain, WC1E 7AE.

Rhif elusen gofrestredig. 313014

CILIP The library and information association

© CILIP 2019